PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Prifysgol Bangor

**COFNODION Y CYNGOR**

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn y brifysgol ddydd Gwener, 27 Tachwedd 2020.

**Presennol:**
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Yr Athro Nicky Callow, Yr Athro Iwan Davies, Dr Myfanwy Davies, Mr Atul Devani, Yr Athro Andrew Edwards, Mr Iwan Evans, Mr Eric Hepburn, Dr Griff Jones, Dr Karen Jones, Dr Llion Jones, Mr Marc Jones, Mr Kailesh Karavadra, Syr Paul Lambert, Mrs Alison Lea-Wilson, Ms Julie Perkins, Dr Ian Rees, Yr Athro Gareth Roberts, Yr Athro Paul Spencer, Yr Athro Oliver Turnbull, Mr Henry Williams, Dr Lynne Williams, Mr Tudur Williams, y Prif Swyddog Gweithredu/Ysgrifennydd y Brifysgol, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro, Prif Swyddog Marchnata a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd).

**20.22 CROESO**

Croesawodd y cadeirydd Mr Atul Devani, Mr Eric Hepburn, Mr Kailesh Karavadra a Dr Lynne Williams i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

**20.23 MARWOLAETHAU**

Cyfeiriodd y cadeirydd at farwolaethau'r canlynol yn ddiweddar:

**Teleri Bevan**
Cymrawd Er Anrhydedd

**Dr Cecil Jones**
Cyn aelod staff yn yr Adran Efrydiau Allanol

**Jan Morris**
Cymrawd Er Anrhydedd

**Connor Reed**
Myfyriwr yn yr Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth.

**John Sessions**
Cymrawd Er Anrhydedd

**Syr John Meurig Thomas**
Cymrawd Er Anrhydedd

**Nigel Paul Williams**
Cyn aelod staff Undeb y Myfyrwyr

Bu'r aelodau yn dawel er cof amdanynt.

**20.24 LLONGYFARCHIADAU**

A. Ar dderbyn swydd Darllenydd:

**Yr Athro Andrew Sherry,** Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg

B. Nododd y cadeirydd y llwyddiannau canlynol hefyd:

Adroddwyd bod Prifysgol Bangor yn dod yn safle ymchwil niwclear o safon fyd-eang ar ôl buddsoddiad gwerth £3 miliwn gan Lywodraeth Cymru mewn 15 o swyddi gwyddoniaeth newydd. Bydd y swyddi i unigolion gyda chymwysterau da yn Sefydliad Dyfodol Niwclear y brifysgol a nodwyd bod y buddsoddiad wedi aildanio uchelgais niwclear y rhanbarth ar ôl y siom o weld Hitachi yn tynnu allan o broject Wylfa Dau.

C. Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd y cadeirydd yn gynnes yr aelodau staff dan sylw.

**20.25 DATGANIADAU BUDD**

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgan unrhyw fudd personol, ariannol neu fanteisiol yn unrhyw fater a ystyrir yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.

B. Ni wnaeth aelodau unrhyw ddatganiadau budd mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda.

**COFNODION 20.26**

A. Cadarnhawyd **cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd 25 Medi a 30 Hydref 2020**

B. Darparwyd cofnod gweithredu yn nodi cynnydd yr holl gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni yn y Cyngor. Nododd y Cyngor yr adroddiadau cynnydd a'r camau gweithredu a gwblhawyd.

**20.27 MATERION YR IS-GANGHELLOR**

A. Tynnodd yr Is-ganghellor sylw'r Cyngor at yr eitemau a ganlyn yn benodol a nododd fod diweddariadau pellach ar faterion yn ymwneud â Covid-19, ffynonellau cyllid a'r Ffatri Sgiliau hefyd wedi eu darparu i aelodau mewn papur briffio a gylchredwyd o dan eitem 4 ar yr agenda.

[1] Safle Profion Asymptomatig

Nodwyd bod Safle Profion Asymptomatig wedi ei sefydlu gan y brifysgol yn Neuadd PJ, sy'n agored i staff a myfyrwyr o 30 Tachwedd i 8 Rhagfyr 2020.

Mae'r fenter hon yn hynod bwysig o ran sicrhau lles parhaus cymuned y brifysgol a bydd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod myfyrwyr yn gallu teithio adref dros wyliau'r Nadolig. Estynnodd y cadeirydd, ar ran holl aelodau'r Cyngor, ei diolch i'r holl aelodau staff sydd wedi bod ynghlwm wrth y gwaith o sefydlu'r cyfleuster.

[2] Cyswllt â Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Adroddodd yr Is-ganghellor ei fod yn parhau i gael trafodaethau rheolaidd ar lefel uchel gydag aelodau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar faterion yn ymwneud â pholisi addysg uwch, addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, yr adolygiad gwariant cynhwysfawr a chyllid ffyniant a rennir.

[3] Adolygiad o Ymchwil ac Arloesi a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru

Cafodd y Cyngor eu hysbysu am yr adolygiad gan yr Athro Graeme Reid sy'n edrych ar y cryfderau, y bylchau a'r potensial yn y dyfodol i gynnal a thyfu gweithgaredd ymchwil ac arloesi cryf yng Nghymru. **Cytunwyd** y byddai'r ddogfen adolygu'n cael ei chylchredeg i aelodau'r Cyngor.

B. Diolchodd y cadeirydd i'r Is-ganghellor am ei ddiweddariad a mynegodd ei diolch i'r tîm gweithredu cyfan am eu harweinyddiaeth yn ystod blwyddyn heriol i'r brifysgol na welwyd ei thebyg o'r blaen. Estynnwyd diolch y Cyngor cyfan hefyd i'r holl aelodau staff sydd wedi gweithio mor galed dros y naw mis diwethaf i sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i dderbyn addysg o ansawdd uchel a phrofiad cadarnhaol.

## 20.28 DIWEDDARIAD UNDEB Y MYFYRYWR

A. Derbyniodd y Cyngor gyflwyniad gan Mr Henry Williams a oedd yn tynnu sylw at y pwyntiau allweddol o arolwg diweddar gan WonkHE yn edrych ar brofiad myfyrwyr yn semester cyntaf 2020/21. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn neilltuol:

- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod profiad myfyrwyr wedi bod yn wahanol eleni, ac mae Undeb y Myfyrwyr wedi bod yn cadw mewn cysylltiad â myfyrwyr i fonitro hyn;

- Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod bywyd prifysgol yn heriol i rai myfyrwyr ac ymddengys eu bod yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan Covid-19 gyda rhai yn nodi unigrwydd fel ffactor, a allai fod oherwydd bod llai o gyfleoedd i gymdeithasu a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithas myfyrwyr;

- Mae rhai myfyrwyr yn ei chael yn haws cyfrannu trwy weithgareddau dysgu a sgwrsio ar-lein, ac yn mwynhau amrywiaeth y model dysgu cyfunol;

B. Tynnodd Mr Williams sylw at nifer o argymhellion, yn benodol:

- Nid yw rhai myfyrwyr yn hyderus y gallent berfformio hyd eithaf eu gallu mewn asesiadau ar hyn o bryd;

- Byddai mwy o gyfleoedd dysgu cymdeithasol, a lle mae'n bosib gwneud hynny, mwy o ddysgu wyneb yn wyneb yn cael eu croesawu;

- Byddai cysylltu â myfyrwyr yn rheolaidd yn cael ei werthfawrogi a'i groesawu.

C. Mewn ymateb i'r pwyntiau a wnaed gan Mr Williams, nododd y Dirprwy Is-ganghellor, yr Athro Oliver Turnbull fod y brifysgol yn ymfalchïo yn lefelau boddhad cadarnhaol ei myfyrwyr a'i bod wedi buddsoddi'n helaeth yn ddiweddar i sicrhau bod darpariaeth iechyd meddwl a chwnsela yn parhau i fod ar gael i'r holl fyfyrwyr yn ystod y cyfnod heriol hwn. Nodwyd hefyd bod y brifysgol, dros gyfnod y Nadolig, wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau y bydd gan y myfyrwyr hynny nad ydynt yn mynd adref fynediad at well gyfleusterau a gwasanaethau. Yn ogystal, cadarnhaodd yr Athro Callow fod gwaith eisoes ar y gweill mewn nifer o feysydd, gyda gwerthusiadau modiwl yn cael eu cynnal ar draws yr holl ddarpariaeth i gael adborth gan fyfyrwyr ynglŷn â'r semester cyntaf. Mae darparu cyfleoedd dysgu cymdeithasol ychwanegol yn thema sy'n gyffredin ar draws holl brifysgolion y Deyrnas Unedig, ac mae staff y brifysgol eisoes yn cynnig ffyrdd arloesol o ddarparu'r gefnogaeth hon, ochr yn ochr â datblygu'r ddarpariaeth dysgu cyfunol.

D. Nododd **y Cyngor** y Cytundeb Perthynas Undeb Myfyrwyr a'r Siarter Myfyrwyr wedi eu diweddaru.

E. Cyflwynodd Mr Henry Williams a Mr Iwan Evans eu hadroddiadau i'r Cyngor, a thynnwyd sylw at yr eitemau canlynol yn benodol:

- Mae nifer o weithgareddau wedi bod yn digwydd yn ystod mis Tachwedd i godi arian at Tashwedd i gefnogi iechyd dynion, gyda llwyddiant mawr;

- Cynhaliwyd digwyddiadau ar-lein i annog myfyrwyr gwrywaidd yn benodol i siarad am faterion iechyd meddwl mewn amgylchedd diogel;

- Trefnwyd gig rhithwir UMCB mewn partneriaeth â Pontio a fu'n llwyddiant;

- Cynhaliwyd nifer o weithgareddau gan gymdeithasau myfyrwyr yn ystod y semester cyntaf gyda llawer o fyfyrwyr yn bresennol ynddynt;

- Mae Undeb y Myfyrwyr ac UMCB wedi cyflwyno ymatebion i ymgynghoriad y brifysgol ar yr Achosion Busnes dros Newid.

F. Diolchodd y cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Mr Williams a Mr Evans am adroddiad llawn gwybodaeth, am eu gwaith caled yn ystod y semester ac am eu hymwneud cadarnhaol parhaus â'r brifysgol.

## 20.29 COVID-19: YMDRIN Â'R HERIAU ARIANNOL

A. Atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor, yn ei gyfarfod ym mis Medi 2020, wedi cymeradwyo'n ffurfiol y cynllun a gyflwynwyd ar gyfer ailstrwythuro'r parth academaidd a'r gwasanaethau proffesiynol. Daeth y cyfnod ymgynghori ar yr achosion busnes dros newid i ben ar 16 Tachwedd, ac mae'r brifysgol wedi cael dros 500 o ymatebion sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd gan y colegau a'r gwasanaethau proffesiynol. Derbyniwyd nifer o geisiadau am ddiswyddo gwirfoddol, ac ystyriwyd y rhain fesul achos gan is-grŵp o'r Pwyllgor Gweithredu sy'n edrych ar yr effaith ar y maes gwaith penodol, a'r brifysgol gyfan. Cytunwyd ar nifer o geisiadau, ond gwrthodwyd nifer hefyd. Mae trafodaethau cadarnhaol yn parhau gyda undebau llafur y campws, ac mae Grŵp Goruchwylio Llywodraethu Covid-19 y Cyngor yn cyfarfod ar 9 a 10 Rhagfyr i graffu ar yr adborth o'r broses ymgynghori.

B. Cafodd y Cyngor eu briffio ar y sefyllfa ariannol gyfredol, ac ar ôl ei ystyried **cymeradwywyd** Rhagolwg HEFCW, a'r rhagdybiaethau cynhenid ynghylch yr arian ychwanegol y gwnaed cais amdano, gan gynnwys y Gronfa Addysg Uwch ac Arloesi gan HEFCW a Chronfa Cynnal Arbenigedd Ymchwil Prifysgolion (*SURE Fund)*.

C. Dywedodd aelodau staff ar y Cyngor fod morâl yn isel ymhlith rhai grwpiau staff, ond bod y staff ar y cyfan yn deall yr angen i'r brifysgol fynd trwy'r broses ailstrwythuro hon er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Cydnabuwyd hefyd bod yr adran Adnoddau Dynol wedi dod o hyd i ffyrdd o weithio'n sensitif gydag aelodau staff, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o golli eu swyddi, mewn cyfnod heriol pan mae mwyafrif y trafodaethau yn digwydd trwy Teams neu Zoom.

D. Cadarnhawyd bod staff yn cael eu hysbysu am gynnydd yr ymarfer ailstrwythuro, a'r camau sy'n cael eu cymryd. Yn yr un modd, tawelwyd meddyliau Undeb y Myfyrwyr y bydd cyfathrebu â myfyrwyr yn parhau i gael ei wneud mewn ffordd debyg a nodwyd y byddai Mr Williams a Mr Evans yn aelodau o'r Grŵp Goruchwylio Llywodraethu Covid-19.

## 20.30 DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

A. Amlinellodd yr Athro Spencer i'r Cyngor y pwyntiau allweddol sy'n ymwneud â'r grantiau ymchwil a'r data contractau a ddarparwyd. Amlinellwyd rhai tueddiadau cyffredinol, a thynnwyd sylw'r Cyngor, yn benodol, at y dirywiad sylweddol mewn grantiau cronfeydd strwythurol oherwydd nad yw cyllid yr UE ar gael i'r brifysgol mwyach.

B. Adroddodd y Prif Swyddog Gweithredu fod y data ariannol chwarterol yn ymwneud â phedwerydd chwarter 2019/20, a nodwyd bod yr holl golegau a mwyafrif y gwasanaethau proffesiynol yn dod â'r flwyddyn i ben mewn gwell sefyllfa na'r disgwyl. Ceir dau eithriad nodedig, sef Gwasanaethau Masnachol a Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu. Yn achos Gwasanaethau Masnachol, mae'r ad-daliad o ffioedd neuaddau ym mis Mawrth 2020, a'r dirywiad mewn incwm arlwyo, cynadledda a meithrinfa am y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020 yn egluro hyn. Yn achos Marchnata,

Recriwtio a Chyfathrebu, atgoffwyd y Cyngor bod buddsoddiad ychwanegol wedi ei awdurdodi i'r maes hwn yn ystod 2019/20. Nodwyd y sefyllfa mewn perthynas â'r is-gwmnïau sy'n eiddo'n llwyr i'r brifysgol hefyd. Dywedwyd wrth y Cyngor hefyd y byddai cyfrifon ariannol y brifysgol, fel rheol, wedi cael eu dwyn gerbron y cyfarfod ym mis Tachwedd, ond oherwydd yr ansicrwydd presennol ynglŷn â recriwtio myfyrwyr a lefel mynediad y brifysgol at gyllid grant oherwydd y pandemig, caiff y cyfrifon eu dwyn gerbron cyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror 2021, yn unol â'r hyn fydd yn digwydd yng ngweddill prifysgolion Cymru.

C. Diweddarodd Ms Westwood y Cyngor ar y pwyntiau allweddol mewn perthynas â recriwtio myfyrwyr. Nodwyd ei bod yn ymddangos bod arwyddion cynnar am nifer yr ymgeiswyr yn awgrymu bod cyfanswm cyfredol y ceisiadau ychydig yn is na'r cyfanswm yn y flwyddyn academaidd 2019/20, er bod y nifer ychydig yn uwch yn y sector o gymharu â'r un adeg y llynedd, ond mae'r bwlch gyda gweddill y sector yn dechrau culhau, ac mae'r brifysgol yn yr un sefyllfa (gostyngiad o 2%) â'r prifysgolion cymharol. Ymddengys bod gwybodaeth o'r sector yn dangos nad yw myfyrwyr eto'n barod i benderfynu beth maent am ei wneud, ac ymddengys bod myfyrwyr yn parhau i fod yn gadarnhaol ynglŷn ag ymgeisio am leoedd mewn prifysgolion tra bod tuedd yn dod i'r amlwg bod myfyrwyr yn gwneud penderfyniadau ar leoedd prifysgol yn llawer hwyrach nag oeddent yn ei wneud yn draddodiadol. Adroddwyd, oherwydd y pandemig Covid-19, nad oedd y gweithgaredd arferol gan y timau marchnata a recriwtio mewn ysgolion wedi digwydd i'r un graddau ag mewn blynyddoedd blaenorol.

**20.31 CYNGOR CYFREITHIOL: BENTHYCIAD EIB**

A. Nododd yr Is-ganghellor fod y Cyngor wedi gofyn am gyngor ar sicrhau eu bod, fel ymddiriedolwyr, yn deall eu cyfrifoldebau personol o dan y gyfraith elusennau gan gyfeirio'n benodol at fenthyciad EIB. Gofynnwyd am gyngor cyfreithiol annibynnol gan Blake Morgan (gan fod Eversheds Sutherland eisoes wedi darparu cyngor i'r brifysgol). Nodwyd bod Blake Morgan wedi cyfeirio'n benodol ac yn cytuno â'r wybodaeth a dderbyniwyd eisoes gan Eversheds Sutherland a nododd:

- Gan fod y brifysgol yn endid corfforaethol, mae gan aelodau'r Cyngor lefel o ddiogelwch rhag atebolrwydd personol. Felly bydd y brifysgol yn atebol i unrhyw drydydd parti o dan ei threfniadau cytundebol, a bydd asedau'r brifysgol yn cael eu defnyddio i fodloni rhwymedigaethau o'r fath.

- Gall unrhyw ymddiriedolwr elusen wynebu hawliad gan y Comisiwn Elusennau, y Twrnai Cyffredinol neu'r ymddiriedolwyr eraill mewn achos o dorri ymddiriedaeth neu ddyletswydd sy'n achosi colled i'r elusen. Ond yn ymarferol, mae'n anghyffredin iawn i ymddiriedolwyr elusen fod yn bersonol atebol am dorri ymddiriedaeth neu ddyletswydd pan maent wedi gweithredu'n ddidwyll.

B. Tynnwyd sylw aelodau'r Cyngor hefyd at gyngor y Comisiwn Elusennau sy'n darparu cyngor lefel uchel i elusennau (yn benodol nodyn canllaw CC3: *The essential trustee: what you need to know, what you need to do*) er mwyn lleihau'r risg o atebolrwydd personol.

## 20.32 MATERION YSTADAU

A. Ystyriodd y Cyngor bapur gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Cyngor i waredu asedau ac i farchnata ased pellach yn unol â'r pris a'r cyngor a roddwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Nododd y Cyngor fel a ganlyn:

[1] bod gofyn i'r brifysgol gydymffurfio â Deddf Elusennau 2011 mewn perthynas â gwaredu tir;

[2] y cafwyd adroddiad syrfëwr yn unol ag Adran 119 (1) (a) Deddf Elusennau 2011 a'r Rheoliadau Elusennau (Adroddiad Syrfëwr Cymwysedig) 1992;

B. Cadarnhaodd aelodau'r Cyngor y canlynol ar gyfer Y Felin Tysilio:

[1] eu bod yn rhesymol fodlon bod y prisiwr, a baratôdd yr adroddiad, yn aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, yn meddu ar y gallu a'r profiad perthnasol i wneud prisiad o'r eiddo a'r ardal dan sylw; ac

[2] yn unol ag Adran 118 o Ddeddf Elusennau 2011, nid oes unrhyw bersonau cysylltiedig yn ymwneud â'r gwerthiant; ac

[3] bod yr aelodau, yn unol ag Adran 119(1)(c) Deddf Elusennau 2011, yn fodlon mai telerau'r cynnig ar gyfer gwaredu yw'r gorau y gellir yn rhesymol eu cael i'r brifysgol a'u bod yn unol â'r cyngor a ddarparwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac y gall y gwerthiannau fynd rhagddynt.

C. Cytunodd **y Cyngor fel a ganlyn:**

[1] y dylid gwerthu Y Felin Tysilio [redacted] a [redacted] am £540,000 yn amodol ar gwblhau'r contract; ac

[2] y dylid gwaredu Ynys Faelog, ar ôl adnewyddu penawdau'r telerau gydag Ystad y Goron, a chlustnodi cyfran o'r arian o'r gwerthiant ar gyfer iard cadw cychod newydd gyda gwell mynediad ar safle Ysgol Gwyddorau'r Eigion; a

[3] y dylid gwaredu cwt cychod Nantporth ac y dylai'r brifysgol gysylltu ag asiantau gwerthu a chyfreithwyr.

## 20.33 ADRODDIAD BLYNYDDOL PREVENT

A. Cafodd y Cyngor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Swyddog Gweithredu ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu a sefydlu gofynion Deddf Gwrth-derfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r ddyletswydd *'Prevent'*. Nododd y Cyngor fod hyn yn parhau i fod yn uchel ar agenda grwpiau tasg a strategaeth, pwyllgorau, a swyddogion unigol, a nododd y polisïau a'r gweithdrefnau a sefydlwyd a'r camau a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth

dros y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd nad yw'r brifysgol wedi gwneud unrhyw gyfeiriadau ffurfiol i'r broses sianel amlasiantaethol yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, na dechrau blwyddyn 2020/21. Adroddwyd bod y brifysgol wedi bod yn destun cyfarfod adolygiad Prevent tair blynedd HEFCW yn ddiweddar, ac wedi hynny roedd yr Is-ganghellor wedi derbyn llythyr gan Brif Weithredwr HEFCW yn cadarnhau bod y brifysgol wedi dangos tystiolaeth ddigonol ei bod yn rhoi sylw dyledus i'r dyletswydd Prevent.

B. Cymeradwyodd ***y Cyngor*** yr adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i HEFCW, a nododd y sicrhad a ddarparwyd gan adolygiad HEFCW.

C. Nodwyd bod Mr Eric Hepburn wedi cymryd yr awenau gan y cadeirydd fel Prif Lywodraethwr Prevent y Cyngor.

**20.34 LLYWODRAETHU ACADEMAIDD**

A. Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu y papur ar Lywodraethu Academaidd a nododd y Cyngor y wybodaeth a dderbyniwyd dros y flwyddyn ddiwethaf i roi sicrwydd pellach. Roedd y rhain yn cynnwys derbyn adroddiadau o'r Senedd, dangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud ag addysg, profiad myfyrwyr ac ymchwil, a chanlyniadau llawn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr a diweddariadau rheolaidd gan Undeb y Myfyrwyr.

B. Nododd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Sicrhau Ansawdd, 2020.

C. Yng ngoleuni'r wybodaeth a roddwyd, **cytunodd** y Cyngor i'r pum datganiad blynyddol ar sicrwydd gael eu hanfon at HEFCW.

**20.35 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GODI ARIAN**

Nododd y Cyngor gynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar Godi Arian. Adroddwyd y bydd yr ymgynghorwyr a gyflogwyd i gynnal adolygiad ehangach o weithgareddau codi arian yn cwblhau eu hadroddiad cyn bo hir.

**20.36 ADRODDIAD ADNODDAU DYNOL**

A. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar faterion Adnoddau Dynol a ***nodwyd*** y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â Gwobr Efydd 2020 Athena Swan a'r Wobr Rhagoriaeth AD mewn Ymchwil, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am y Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol ar gyfer Cyflog Byw Gwirioneddol.

B. Derbyniwyd, er gwybodaeth, restr o benodiadau uwch diweddar.

C. ***Cymeradwyodd*** y Cyngor y cais i ddyfarnu statws Emeritws i'r Athro Helen Wilcox.

## 20.37 ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWEITHREDU

A. Derbyniwyd adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredu a gynhaliwyd rhwng mis Medi 2020 a mis Tachwedd 2020 (ynghlwm fel Atodiad II i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

B. Nodwyd bod cyfradd gwblhau adolygiadau datblygu perfformiad wedi codi i 70%, a bod y brifysgol yn hyderus y byddai hyn yn codi ymhellach yn y blynyddoedd i ddod. Dywedodd y Cyngor ei fod am gael gwybod am y datblygiadau yn y maes hwn.

## 20.38 ADRODDIAD O'R SENEDD

Derbyniwyd adroddiad o gyfarfodydd y Senedd a gynhaliwyd rhwng mis Medi 2020 a mis Tachwedd 2020 (ynghlwm fel Atodiad II i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

## 20.39 PWYLLGOR CYLLID A STRATEGAETH

Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a gynhaliwyd 26 Tachwedd 2020 (ynghlwm fel Atodiad III i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

## 20.40 PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

A. Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd 6 Tachwedd 2020 (ynghlwm fel Atodiad IV i gopi swyddogol y cofnodion).

B. Derbyniodd ac ystyriodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2019/20. Tynnodd gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch sylw at y prif bwyntiau yn yr adroddiad blynyddol, ynghyd â dangosyddion perfformiad allweddol.

C. Diolchodd yr Athro Roberts, fel cadeirydd y pwyllgor, i staff Iechyd a Diogelwch a staff Gwasanaethau Eiddo a Champws am eu gwaith paratoi diwyd yn ystod y semester cyntaf i sicrhau bod y campws yn ddiogel rhag Covid.

## 20.41 PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

A. Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2020 (ynghlwm fel Atodiad III i gopi swyddogol y cofnodion).

B. **Nododd** y Cyngor adroddiad blynyddol 2019/20 y pwyllgor a **chytunodd** y dylid ei gyflwyno i HEFCW.

## 20.42 PWYLLGOR DISWYDDIADAU

Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Diswyddiadau a gynhaliwyd 28 Medi 2020 (ynghlwm fel Atodiad IV i gopi swyddogol y cofnodion).

## 20.43 SELIO

**Cadarnhaodd** y Cyngor selio’r dogfennau a restrwyd yn Agendum 18.

*Gadawodd y cadeirydd, Mrs Marian Wyn Jones, y cyfarfod a chymerodd y Dirprwy Ganghellor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, yr Athro Gareth Roberts, yr awenau.*

## 20.44 PWYLLGOR ENWEBIADAU A LLYWODRAETHU

A. Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd 20 Tachwedd 2020 (ynghlwm fel Atodiad VII i gopi swyddogol y cofnodion).

B. Gan gyfeirio'n benodol at gofnod 199 (*Aelodaeth o'r Cyngor a'i Bwyllgorau*); **penderfynodd** y cyngor:

- Adnewyddu cyfnod Mrs Marian Wyn Jones fel cadeirydd y Cyngor am gyfnod pellach o bedair blynedd hyd at 8 Chwefror 2025; ac

- Adnewyddu cyfnod Ms Julie Perkins fel aelod annibynnol am gyfnod pellach o bedair blynedd, hyd at 30 Hydref 2024; a

- Penodi Mrs Gwenan Hine yn ffurfiol fel Ysgrifennydd y Cyngor yn unol â'r swydd-ddisgrifiad sydd wedi ei atodi i'r cofnodion. (*Gadawodd Mrs Hine y cyfarfod cyn y drafodaeth a'r cytundeb am y mater hwn).*